



Y broses Cysylltwyr Staff

Croeso i CYSYLLTU! Mae tîm CYSYLLTU yn cynnig cyfle i staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda myfyrwyr i fod yn 'Gysylltwyr Staff Cysylltu' a chofrestru ar nifer o gyrsiau hyfforddi sy'n ymwneud â lles. Ein nod yw eich helpu chi i gefnogi a datblygu lles ac iechyd meddwl myfyrwyr wrth wneud eich swyddi.

Mae'r llwybr i fod yn Gysylltydd Staff ym Mhrifysgol Abertawe wedi'i amlinellu isod:

Ar ôl darllen amlinelliad y rôl isod, cwblhewch eich ffurflen mynegiant o ddiddordeb



Llwybr



Llwybr 'Uwch'



Bydd y tîm CYSYLLTU yn cysylltu â chi i drafod y prosiect a chofrestru staff ar Hyfforddiant Iechyd Meddwl Pobl Ifanc (*os nad yw hwn wedi'i gwblhau yn ystod y 3 blynedd diwethaf*)



Rydych chi nawr yn Gysylltydd Staff 'sylfaenol' .

Cewch eich ychwanegu at sianel TEAMS y Cysylltwyr Staff, rhwydwaith MHFA y Brifysgol a'ch gwahodd i sesiynau uwchsgilio neu hyfforddiant pellach a gynhelir gan CYSYLLTU

Cewch eich ychwanegu at sianel Teams y Cysylltwyr Staff, rhwydwaith MHFA y Brifysgol a'ch gwahodd i sesiynau uwchsgilio neu hyfforddiant pellach a gynhelir gan CYSYLLTU



Cwblhau hyfforddiant diogelu a ffiniau Staff Cysylltu



Rydych chi nawr yn Gysylltydd Staff 'uwch'

Cofrestru a chwblhau bywgraffiad ar wefan CYSYLLTU. Cysylltir â chi os bydd cyfleoedd pellach ar gael.



Cyfle Datblygu Staff

Cyfle: Cysylltydd Staff

Adran: Gwasanaethau Cymorth Cynhwysol i Fyfyrrwyr

Ymrwymiad: Hyblyg, yn ôl yr angen/argaeledd

Lleoliad: O'ch lleoliad gwaith arferol

Hyfforddiant

- **Cyflwyniad i CYSYLLTU** (*wedi'i recordio o flaen llaw*)
- **Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Pobl Ifanc**
- **Diogelu a ffiniau** (*wedi'i recordio o flaen llaw*) – Rôl uwch yn unig

Manyleb Person

- Eisoed yn gweithio mewn amgylchedd sy'n ymdrin yn uniongyrchol â myfyrrwyr neu'n treulio amser sylweddol yn gweithio gyda myfyrrwyr fel rhan o'ch gwaith bob dydd
- Dealltwriaeth sylfaenol o les
- Bod yn groesawgar, a hawdd mynd atoch a bod yn hapus i sbarduno sgysiau â myfyrrwyr am eu lles
- Bod yn fodlon hyrwyddo gweithdai, digwyddiadau, gweithgareddau a chyfleoedd eraill ar draws y Brifysgol

Rôl Sylfaenol

- Cynorthwyo i hyrwyddo'r prosiect
- Rhannu negeseuon cadarnhaol, ymgyrchoedd a gwybodaeth am ddigwyddiadau ar y campws. Er enghraifft, rhannu gwybodaeth â myfyrrwyr ar ddiwedd darlith/seminar
- Annog myfyrrwyr i gysylltu â'i gilydd a chefnogi ei gilydd
- Cyfeirio myfyrrwyr at weithgareddau neu wasanaethau cymorth, yn ôl yr angen
- Holi pa gymorth lles ychwanegol byddai myfyrrwyr yn ei groesawu

Rôl Uwch

- Yn cynnwys rôl 'sylfaenol'
- Creu 'bywgraffiad' ar wefan CYSYLLTU a bod ar gael i fyfyrrwyr a Chysylltwyr myfyrrwyr sy'n gofrestredig gyda CYSYLLTU gysylltu â chi
- Cynnig cymorth ac arweiniad i Gysylltwyr myfyrrwyr ar gais
- Cael yr opsiwn i gefnogi gwaith prosiect ychwanegol, fel cefnogi digwyddiadau CYSYLLTU neu oruchwylio grwpiau cymorth cymheiriaid